| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 18 Ebrill 2024 |
| **Teitl** | Llawlyfr Cynnal Priffyrdd |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Pwrpas** | Diweddaru’r Aelodau ar y Llawlyfr Cynnal Priffyrdd |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae gan awdurdodau priffyrdd lleol ddyletswydd benodol o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 i gynnal eu ffyrdd sydd wedi eu mabwysiadu fel rhai i’w cynnal o’r pwrs cyhoeddus ac i’w cadw’n ddiogel i’r cyhoedd eu defnyddio.

1.2 Cyhoeddwyd amryw o godau ymarfer cenedlaethol dros y blynyddoedd i annog arferion gorau ac i fabwysiadu gweithdrefnau rheoli asedau sy'n cymryd agwedd fwy cyfannol at gynnal rhwydweithiau priffyrdd ac felly amddiffyn awdurdodau rhag hawliadau neu gamau cyfreithiol.

1.3 Yn unol â'r argymhellion yn y cod ymarfer a oedd yn bodoli ar yr adeg, sef *'Well-maintained Highways, Code of Practice for Highway Maintenance Management 2005'*, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ym mis Gorffennaf 2010 er mwyn rhagnodi sut yr oedd yn bwriadu rheoli ei ffyrdd sirol. Ystyriwyd bod Cynllun Rheoli Gwynedd yn gynhwysfawr ac o flaen ei amser, ac ychydig iawn o awdurdodau priffyrdd eraill oedd wedi mabwysiadu cynllun tebyg ar y pryd.

1.4 Mae'r Cynllun wedi cyflawni ei bwrpas dros y blynyddoedd, nid yn unig fel canllaw dyddiol ar sut i gynnal ffyrdd y Sir ond hefyd i amddiffyn y Cyngor rhag hawliadau trydydd parti ac achosion llys. Rhwng y 1af o Ebrill 2016 a’r 1af o Ebrill eleni, bu i’r Cyngor dderbyn 343 o geisiadau hawlio trydydd parti ac mae wedi llwyddo i amddiffyn 294 ohonynt; cyfradd llwyddiant o bron i 86%. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn ag awdurdodau priffyrdd eraill ac mae'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant yn rhoi hyn i lawr i gadernid y Cynllun.

1.5 Cyflwynwyd côd ymarfer newydd yn 2016, sef *‘Well-managed Highway Infrastructure: A Code of Practice’*. Roedd y côd newydd yn hyrwyddo mabwysiadu dull rheoli asedau integredig o gynnal priffyrdd yn seiliedig ar sefydlu lefelau lleol o wasanaeth trwy reoli ar sail risg.

1.6 Er mwyn sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cydymffurfio â gofynion y côd newydd, comisiynodd Cymdeithas Syrfëwr Sirol Cymru (CSSC) ymgynghorwyr arbenigol i lunio dull sy'n gyson yn genedlaethol o ymdrin â'r canllawiau newydd. O ganlyniad, yn hytrach na chael un Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd i ddiffinio sut maen nhw'n rheoli eu rhwydweithiau ffyrdd (yn debyg i Gynllun Rheoli presennol y Cyngor), argymhellodd CSSC fod pob awdurdod yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau sy'n cefnogi eu dull o reoli eu hased priffyrdd. Mae'r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd yn un o'r dogfennau hyn.

1.7 Mae Llawlyfrau Cynnal Priffyrdd yn nodi sut mae’r Cyngor yn cyflawni eu dyletswyddau fel yr awdurdod priffyrdd; yn cadarnhau'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod y risg i ddefnyddwyr y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei fonitro a'i reoli'n briodol, a sicrhau cysondeb o ran sut y mae safonau'n cael eu gweithredu.

Er mwyn cyflawni'r rhain i gyd, cynigiodd CSSC fod awdurdodau'n ymgymryd â’r canlynol:

- Sefydlu hierarchaeth rhwydwaith
- Sefydlu trefn arolygu
- Sefydlu trefn trwsio
- Defnyddio risg i ddylanwadu ar sut y caiff y gyllideb ei dyrannu

1.8 Roedd gan y Cyngor eisoes hierarchaeth rhwydwaith, trefn arolygu, a gweithdrefn trwsio ar waith, ac roedd y safonau a'r arferion yn ei Gynllun Rheoli yn seiliedig ar risg i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'n debyg nad oeddent yn gwbl gyson â gofynion y côd newydd ac argymhellion CSSC. O ganlyniad, adolygodd yr Adran ei threfniadau presennol (hierarchaeth, arolygu ac atgyweirio) a sefydlodd safonau a oedd yr un fath, os nad yn well, na'r rhai a gynigiwyd gan CSSC. Dyma'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Cynnal Priffyrdd newydd y Cyngor (gweler Atodiad 1).

**2. Mabwysiadu'r Llawlyfr**

2.1 Bu i’r Adran gyflwyno’r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd newydd i’r Cabinet ym mis Gorffennaf, 2023 er ei fabwysiadu yn llawn.

2.2 Roedd mabwysiadu’r llawlyfr newydd yn sicrhau:

- bod gweithdrefnau cynnal asedau priffyrdd y Cyngor yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol presennol
- bod y Cyngor yn darparu rhwydwaith priffyrdd diogel sydd wedi'i gynnal yn dda
- fod safonau cynnal priodol yn cael eu gweithredu'n gyson ledled Gwynedd
- bod safonau a dull gweithredu'r Cyngor yn gyson ag awdurdodau priffyrdd eraill o fewn Cymru
- y bydd y Cyngor yn parhau i allu amddiffyn hawliadau trydydd parti a chamau cyfreithiol gan unigolion
- bod dyraniadau cyllideb cynnal priffyrdd yn y dyfodol yn cael eu dylanwadu gan risg yn hytrach na gan ffactorau eraill.

**3. Y Camau Nesaf**

3.1 Tra’n cyflwyno’r newidiadau a gyfeirir atynt uchod, mabwysiadwyd hefyd drefn newydd ar gyfer ymateb i ddiffygion diogelwch ynghyd â gwneud defnydd o’r system asedau (WDM) i adnabod a blaenoriaethu rhaglen waith cyfalaf cynnal strwythurol.

*Diffygion Diogelwch*


3.2 Yng nghymal 7.1 o’r llawlyfr mae ein categorïau diffygion yn cael eu hadnabod o fewn (tabl 2), sef:

- Diffyg critigol
- Diffyg diogelwch
- Diffyg cynnal

3.3 Ers mabwysiadu’r llawlyfr newydd, ac fel rhan o’r newidiadau mae trefn ymateb i ddiffygion diogelwch bellach wedi newid i amserlen ymateb erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

3.4 Mae’r newid yma wedi ein galluogi i raglennu gwaith yn fwy effeithiol gan weld pecynnau o waith yn cael eu paratoi.

3.5 Hyd yma, nid oes unrhyw gonsyrn wedi ei adnabod ers cyflwyno’r weithdrefn newydd ond byddwn yn parhau i fonitro’r sefyllfa dros y misoedd nesaf. Mae’r graff isod yn arddangos nifer o ddiffygion diogelwch sydd yn cael ei adrodd fesul ardal.




*Rhaglen Waith Cyfalaf Cynnal Strwythurol/System Asedau WDM*

3.6 Bydd ein trefn ar gyfer rhaglen waith cynnal strwythurol yn defnyddio’r categorïau canlynol:

- Hierarchaeth (traffig/defnydd)
- Data sganiwr (rhwygo, gwead, proffil ffordd) RCI
- Cyflwr gweledol (dadansoddiad arolwg fideo) Data CVI yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol
- Blaenoriaethau ardal a rhwydwaith lleol
- Lefelau diffygion – hanes diffyg 3 blynedd/sgôr agregedig/km
- Oed adeiladu

3.7 Yr ydym ar hyn o bryd yn y broses o ddarparu’r rhaglen waith ar sail y wybodaeth uchod, fydd yn adlewyrchu’r gwir flaenoriaeth o ffyrdd sydd angen sylw ac ar sail Gwynedd gyfan. Bydd y rhaglen yma yn cael ei rannu gyda holl Aelodau Gwynedd o fewn yr wythnosau nesaf.

**4. Casgliad**

4.1 Mae am gymeryd peth amser i asesu effaith y newidiadau yn llawn ond ers cyflwyno’r newidiadau hyd yma nid oes unrhyw bryder wedi ei amlygu. I’r gwrthwyneb, mae gallu i ymateb i ddiffygion erbyn diwedd y diwrnod gwaith dilynol yn sicr wedi gwella ein trefniadau gwaith ar y ddaear.

4.2 Mae pwysau sylweddol ar gyllideb Cynnal Ffyrdd a bydd darpariaeth o raglen waith ar sail blaenoriaeth Gwynedd yn tystiolaethu pa ffyrdd fydd yn derbyn sylw yn erbyn y categorïau uchod.